

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol ac fe'i cyflwynir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
1 Rhagfyr 2020

RHAN 1: DISGRIFIAD

1 Trosolwg

- 1.1 Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yw'r mecanwaith y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth i aelwydydd incwm isel i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.
- 1.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt ar y cyd yn y Memorandwm Esboniadol hwn fel 'Rheoliadau CTRS 2013'). Mae'n codi ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a lefel y gostyngiad dilynol ac mae'n gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol penodol.

2 Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig.

3 Cefndir Deddfwriaethol

- 3.1 Mae Adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 ac Atodlen 4 iddi wedi mewnosod adran 13A ac Atodlen 1B newydd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992). Roedd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yng Nghymru drwy reoliadau.
- 3.2 Roedd y darpariaethau perthnasol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mehefin 2012. Cafodd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Tachwedd 2012.
- 3.3 Gwneir yr offeryn statudol hwn yn unol â phwerau yn adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi. Mae'r offeryn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd (y weithdrefn gadarnhaol) yn rhinwedd adran 13A(4) o Ddeddf 1992".

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i godi ffigurau penodol yn y Rheoliadau hynny a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor, a swm unrhyw ostyngiad a ddyfarnwyd i ymgeiswyr ym mlwyddyn ariannol 2021-22 i adlewyrchu cynnydd mewn costau byw. Mae hefyd yn gwneud mân newidiadau technegol a chanlyniadol i Reoliadau CTRS 2013.

Y Cefndir

- 4.2 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor o 31 Mawrth 2013. O 1 Ebrill 2013, cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor ei ddatganoli i awdurdodau lleol yn Lloegr. Cafodd cyllid sefydlog, a ostyngwyd 10% o'i gymharu â chostau 2012-13, ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth yr Alban i ganiatáu i'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddatblygu cynlluniau newydd.
- 4.3 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU, ceisiodd Llywodraeth Cymru ddarpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 a ddiwygiodd Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992), i roi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru drwy reoliadau.
- 4.4 Cymeradwywyd Rheoliadau CTRS 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2013.
- 4.5 Darparodd Llywodraeth Cymru £244m yn y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer CTRS yn 2013-14. Ariannwyd hyn yn rhannol drwy'r gyllideb sefydlog o £222m a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ychwanegol i alluogi awdurdodau lleol i barhau i roi'r cymorth llawn y mae gan bob ymgeisydd cymwys yr hawl i'w gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu £244m o fewn y setliad llywodraeth leol bob blwyddyn ers hynny.

Rheoliadau CTRS 2013

- 4.6 Ochr yn ochr â'r darpariaethau yn Neddf 1992, mae Rheoliadau CTRS 2013 yn rheoli gweithrediad CTRS yng Nghymru. Roedd y rheoliadau hyn wedi'u seilio'n agos ar reolau Budd-dal y Dreth Gyngor yn flaenorol i atal aelwydydd incwm isel rhag wynebu newidiadau sydyn yn lefel y cymorth a gawsant. Cafodd pob ymgeisydd cymwys ei drosglwyddo'n awtomatig ac yn ddi-dor o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2013. Os bydd ymgeisydd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar Sail Incwm, Credyd Pensiwn, neu Warrant Credyd Pensiwn, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf, llawn, yn ei rwymedigaeth treth gyngor. Mae tua 70% o ymgeiswyr CTRS yng Nghymru yn cael y budd-daliadau pasbortio hyn.
- 4.7 Os nad yw ymgeisydd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau pasbortio, cyfrifir y swm wythnosol o arian y barnir y bydd ei angen i fyw arno. Gelwir hyn yn 'swm cymwysadwy' ac mae'n cynnwys dwy gydran:
- Y cyntaf yw'r lwfans personol – y swm sylfaenol y mae person ei angen i fyw arno, sy'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r aelwyd. Er enghraifft, mae'r lwfans ar gyfer cwpl â phlant yn uwch nag ar gyfer person sengl heb

blant. Mae'r lwfansau hyn hefyd wedi'u pennu ar gyfraddau uwch ar gyfer y rhai sydd wedi cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

- Yr ail gydran yw'r premiwm – ychwanegir symiau ychwanegol i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu costau byw, megis anabledd neu gyfrifoldebau gofalwr. Unwaith y bydd y swm perthnasol wedi'i bennu, cyfrifir lefel incwm yr ymgeisydd.
- 4.8 Ar gyfer CTRS, bydd unigolion sy'n cael Credyd Cynhwysol yn cael eu trin mewn ffordd debyg i ymgeiswyr heb eu pasbortio. Fodd bynnag, yn hytrach na bod 'swm cymwysadwy' yn cael ei gyfrifo, defnyddir yr 'uchafswm' (a gyfrifir yn eu cais Credyd Cynhwysol) yn lle hynny.
- 4.9 Os yw'r swm cymwysadwy (neu'r uchafswm) yn uwch nag incwm cyfrifedig yr ymgeisydd, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf yn ei rwymedigaeth treth gyngor. Os yw'r incwm yn fwy na'r swm cymwysadwy, gostyngir yr hawl wythnosol 20c am bob £1 o incwm wythnosol dros ben, hyd nes y tynnir yr hawl yn ôl – y tapr yw'r enw ar hwn.
- 4.10 Gellir gwneud addasiadau i uchafswm y gostyngiad y gall person ei gael i ystyried oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion yr ymgeisydd ac y tybir felly eu bod yn gwneud cyfraniad ariannol i'r aelwyd (didyniadau annibynyddion).
- 4.11 Gellir gwneud addasiadau hefyd i ystyried cynilon. Os oes gan ymgeisydd gyfalaf o £6,000 (neu £10,000 ar gyfer hawl wyr oedran pensiwn) neu lai, anwybyddir hyn wrth benderfynu a oes ganddynt hawl i ostyngiad.
- 4.12 Os oes gan ymgeisydd o oedran gweithio gyfalaf o rhwng £6,000 a £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei drin fel incwm. Gelwir hyn yn incwm tariff. Bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yn ganiataol bod gan ymgeisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £250 o gyfalaf rhwng £6,000 ac £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i weld a oes gan ymgeisydd hawl i ostyngiad a faint y mae ganddo hawl iddo.
- 4.13 Os oes gan ymgeisydd o oedran pensiwn gyfalaf o rhwng £10,000 a £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei drin fel incwm. Bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yn ganiataol bod gan ymgeisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £500 o gyfalaf rhwng £10,000 a £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i weld a oes gan ymgeisydd hawl i ostyngiad a faint y mae ganddo hawl iddo.

Cynyddu ffigurau ar gyfer 2021-22

- 4.14 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i godi ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
- 4.15 Mae'r offeryn statudol yn ceisio cynyddu nifer o ffigurau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau CTRS 2013. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfansau personol mewn perthynas ag oedran gweithio, a phremiymau gofawyr ac anabl
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfansau hyn wedi'u diwygio ac wedi cynyddu yn unol â'r codiadau costau byw. Bydd y confensiwn yn codi'n unol â ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi o'r flwyddyn flaenorol (2020), sef 0.5%.
- Lwfansau personol mewn perthynas â phensiynwyr
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pensiynwyr wedi'u diwygio ac maent yn cyd-fynd â Budd-dal Tai. Cyfrifwyd y rhain gyda chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent wedi'u codi gan wahanol fecanweithiau. Er enghraifft, mae'r Warrant Isafswm Safonol Credyd Pensiwn yn codi yn ôl enillion, tra bod y pensiwn ychwanegol a'r cynyddrannau yn cael codi yn ôl prisiau.
- Didyniadau annibynyddion
Mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wnaed mewn perthynas ag annibynyddion wedi'u codi. Os na wneir diwygiadau, ni fyddai'r didyniadau o ddyfarniadau CTRS yn briodol gan na fyddai'r trothwyon incwm bellach yn adlewyrchu enillion cyfartalog ac ni fyddai'r didyniad bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor.

Gwelliannau Ychwanegol

4.16 Yn ogystal â diweddarau'r ffigurau ariannol, mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud nifer o ddiwygiadau eraill i Reoliadau CTRS 2013. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth ar gyfer trin dau fath arall o daliadau ac yn sicrhau bod Rheoliadau 2013 yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Diwygiadau sy'n gysylltiedig â Chynllun Iawndal Windrush

4.17 Mae'r cynllun iawndal hwn ("y Cynllun") wedi'i gynllunio i ddigolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â methu â dangos eu statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.

4.18 Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau CTRS 2013 yn gwneud darpariaeth y bydd taliadau digolledu a wneir o dan y Cynllun yn cael eu diystyru o gyfalaf wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael gostyngiad, a swm y gostyngiad hwnnw.

Diystyriad Credyd Cynhwysol Di-dor

4.19 Daw'r hawl i Gredyd Cynhwysol i ben pan fydd person (neu gwpl oedran cymysg) yn cyrraedd yr oedran cymhwys ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth. O'r pwynt hwn, gall hawlwr hawlio budd-daliadau oedran pensiwn fel Credyd Pensiwn yn lle hynny.

4.20 Yn flaenorol, roedd hawlwr a gyrhaeddodd oedran pensiwn y wladwriaeth yn ystod y cyfnod asesu mewn perygl o weld bwlch rhwng eu taliad credyd cynhwysol diwethaf a'u taliadau credyd pensiwn cyntaf (a budd-daliadau oedran pensiwn eraill). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cymryd camau i bontio yn fwy llyfn o greddy cynhwysol i fudd-daliadau oedran pensiwn, heb unrhyw risg o fylchau yn yr hawl i hawlwr. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud taliadau credyd cynhwysol di-dor ychwanegol ar gyfer y mis cyfan pan fydd hawliwr yn cyrraedd oedran pensiwn. I rai hawlwr, yn dibynnu ar ba ddyddiad o fewn y mis y maent yn cyrraedd yr oedran hwn, bydd gorgyffwrdd o ran derbyn y taliad credyd cynhwysol hwn a budd-daliadau oedran pensiwn.

4.21 Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2013 yn darparu nad yw unrhyw 'incwm ychwanegol' sy'n deillio o orgyffwrdd o'r fath i'w ystyried yn incwm wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael gostyngiad oedran pensiwn yn y dreth gyngor yng Nghymru.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr Opsiynau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

- 1 Pe bai'r ffigurau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu lwfansau aelwydydd yn y prawf modd gostyngiadau'r dreth gyngor yn aros yn sefydlog, byddai'r meini prawf a ddefnyddiwyd ychydig yn llai hael ar gyfer ymgeiswyr heb eu pasbortio a byddai'n arwain at ostyngiadau bach mewn cymorth mewn termau real.
- 2 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu cymhwysedd aelwydydd ag unigolion nad ydynt yn ddibynnol wedi dyddio. Ni fyddai'r trothwyon incwm bellach yn adlewyrchu enillion cyfartalog ac ni fyddai'r addasiad a wnaed i ostyngiad terfynol y dreth gyngor bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor.
- 3 Os na wneir diwygiadau canlyniadol i Reoliadau CTRS 2013, byddai hyn yn golygu na fyddent yn ystyried newidiadau i fudd-daliadau lles cysylltiedig a deddfwriaeth arall. Gallai hyn roi rhai ymgeiswyr dan anfantais drwy leihau neu atal eu hawl i gael cymorth. Gallai hefyd greu dryswch i ymgeiswyr a chynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor.

Opsiwn 2 – Diwygio'r Rheoliadau

- 4 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i godi'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau CTRS 2013 yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, cynnydd mewn costau byw a newidiadau i fudd-daliadau cymwys.
- 5 Bydd y ffigurau ariannol mewn perthynas ag oedran gweithio, anabledd neu gyfraddau gofalwyr yn parhau i gynyddu gyda chostau byw ar gyfer 2020-21 (0.5%, fel y'u mesurir gan y CPI). Bydd y lwfansau personol ar gyfer pensynwyr yn cael eu codi i gyd-fynd â'r rhai ar gyfer Budd-dal Tai a'r system fudd-daliadau. Byddai'r cynnydd yn cyd-fynd â Gwarant Isafswm Safonol Llywodraeth y DU a Chredyd Cynilion.
- 6 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r addasiad ar gyfer didyniadau annibynyddion yn cael eu codi. Byddai'r trothwyon incwm mewn perthynas ag annibynyddion yn cael eu codi i adlewyrchu enillion cyfartalog a byddai'r didyniad annibynyddion o CTRS yn adlewyrchu'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor.
- 7 Byddai'r diwygiadau technegol a chanlyniadol angenrheidiol hefyd yn cael eu gwneud.

Costau a manteision

Costau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

- 8 Os nad yw'r ffigurau ariannol ar gyfer lwfansau oedran gweithio a phensiynwyr yn cynyddu gyda chostau byw (fel y'u mesurir gan y CPI), byddai unigolion sy'n cael CTRS ychydig yn waeth eu byd mewn termau real.
- 9 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i asesu cymhwysedd aelwydydd â phobl nad ydynt yn ddibynnol hefyd wedi dyddio. Ni fyddai'r cyfrifiad bellach yn gwneud asesiad teg o incwm annibynyddion na chost gyffredinol y dreth gyngor. Mae perygl y byddai'r agwedd hon ar y cynllun yn cael ei hystyried yn annheg neu'n anghyfiawn.
- 10 Os na wneir y diwygiadau technegol a chanlyniadol i Reoliadau CTRS 2013, ni fyddent bellach yn cyd-fynd â darpariaethau Budd-dal Tai a budd-daliadau perthnasol eraill. Byddai'n arwain at fod yn anghyson â'r system fudd-daliadau gyffredinol a gallai roi rhai ymgeiswyr dan anfantais drwy leihau eu hawl i gymorth. Gallai hyn arwain o bosibl at faich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor. Gall hefyd arwain at ddryswch i rai ymgeiswyr a allai, o ganlyniad, gael eu trin yn sylweddol wahanol o dan gynlluniau budd-daliadau.

Manteision

- 11 Byddai peidio â chodi ffigurau pensiynwyr ac oedran gweithio yn helpu i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yng nghyfanswm y gostyngiadau o dan CTRS. Fodd bynnag, byddai peidio â chodi ffigurau mewn perthynas â didyniadau annibynyddion yn arwain at ostyngiadau uwch nag arfer yn y dreth gyngor i aelwydydd perthnasol.

Opsiwn 2 – Diwygio'r Rheoliadau

Costau

- 12 Byddai cynyddu'r ffigurau ariannol mewn perthynas â phensiynwyr a lwfansau oedran gweithio yn cynyddu cyfanswm y gostyngiadau o dan CTRS rywfaint. Fodd bynnag, pe bai'r ffigurau ariannol mewn perthynas â didyniadau nad ydynt yn ddibynnol hefyd yn cael eu codi, byddai hyn yn lliniaru rhywfaint o'r cynnydd yng nghyfanswm y gostyngiadau. O ganlyniad, ni ddisgwylir i gyfanswm gostyngiadau'r dreth gyngor godi'n sylweddol o ganlyniad i'r cynnydd.

Manteision

- 13 Bydd cynyddu'r ffigurau ariannol Rheoliadau CTRS 2013 yn sicrhau bod y lwfans personol ar gyfer ymgeiswyr o oedran gweithio yn parhau i gynyddu yn unol â'r CPI (0.5%).

- 14 Parheir i gynyddu'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfans personol i bensiynwyr yn unol â'r Warrant Isafswm Safonol a'r Credyd Cynilion.
- 15 Os caiff y ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau didyniadau annibynyddion eu codi, bydd hyn yn sicrhau bod y cyfrifiad a ddefnyddir i asesu cymhwysedd aelwydydd nad ydynt yn ddibynnol yn parhau i fod yn gyfredol. Byddai'r cyfrifiad yn parhau i wneud asesiad teg o incwm annibynyddion a chost y dreth gyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg ac yn gyfiawn.
- 16 Fel rhan o'r Rheoliadau hyn, gwneir diwygiadau canlyniadol a thechnegol sy'n gysylltiedig â newidiadau lles ehangach a wneir gan lywodraeth y DU. Byddai hyn yn sicrhau bod CTRS yn adlewyrchu newidiadau a wnaed i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol cydberthynol sy'n aml yn pennu hawl i ostyngiad. Byddai hefyd yn osgoi unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol neu ddarparwyr cyngor sy'n deillio o reoli gwahanol gyfundrefnau.

Sectorau

- 17 Ymgynghorwyd â llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu cynigion i gyflwyno CTRS yng Nghymru. Mae rheoliadau drafft ar gyfer 2020-21 wedi'u rhannu gydag awdurdodau lleol.
- 18 Ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar y sector busnes.

Dyletswyddau

- 19 Wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu.
- 20 Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cyflwyno Rheoliadau CTRS 2013.
- 21 Darperir yr offeryn statudol hwn yn ddwyieithog. Caiff CTRS ei roi ar waith a'i weithredu gan awdurdodau lleol sydd o dan ddyletswyddau cyffredinol i gydymffurfio â dyletswyddau'r Gymraeg a datblygu cynaliadwy.
- 22 Ystyriwyd ymhellach a fyddai'n bosibl defnyddio CTRS i wella cyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan mai unig ddiben CTRS yw rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel wrth gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, ystyriwch nad oes cyfleoedd o'r fath.
- 23 Bydd cynnal hawliau llawn i CTRS yn parhau i helpu aelwydydd incwm isel i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac, o'r herwydd, bydd yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y dreth gyngor yn decach.

Asesu'r Gystadleuaeth

- 24 Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u sgorio yn erbyn y prawf hidlo cystadleuaeth a ddangosodd na fydd unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth.

Ymgynghori

- 25 Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r offeryn statudol hwn. Ymgynghorwyd ar Reoliadau CTRS 2013 a darperir manylion yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.

Adolygu ar ôl gweithredu

- 26 Gofynnir am ddiwygiadau yn flynyddol i godi'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r ddeddfwriaeth.